

Cyfarfod: Cabinet

Dyddiad: 29 Mawrth 2022

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid, a'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned

Pwnc: Effaith Covid-19 ar Gyllideb 2022/23 Cwmni Byw'n Iach

Swyddog Cyswilt: Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

PENDERFYNIAD A GEISIR:

Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi'r Pennaeth Cyllid i ymestyn y cyfnod o sicrwydd a rhoddwyd eisoes i gwmni Byw'n Iach Cyf hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

Cefndir

1. Un o sgil effeithiau yr argyfwng Covid-19 yw fod incwm wedi lleihau a gwariant ychwanegol wedi ei wynebu gan awdurdodau lleol wrth geisio ymateb i'r argyfwng.

Penderfyniad Blaenorol

2. Yn ei gyfarfod 19 Mai 2020, ym misoedd cyntaf yr pandemig, bu'n rhaid i'r Cabinet ystyried sut i ddygymod gyda bwlch cyllidebol posib Cyngor Gwynedd a chwmni Byw'n Iach Cyf oherwydd colledion incwm sylweddol oherwydd yr argyfwng.
3. Fodd bynnag, gan nodi byddai gan gwmni Byw'n Iach Cyf golledion ariannol o ganlyniad i gyfyngiadau'r argyfwng Covid-19, cadarnhaodd y Cabinet ei fod yn fodlon darparu'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau cwmni'n Byw'n Iach Cyf yn y man cyntaf hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.
4. Penderfynwyd awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, i ddarparu llythyr o sicrwydd i'r cwmni. Roedd llythyr o'r fath hefyd yn bodloni safonau archwilio rhyngwladol ac yn caniatáu i Archwilwyr Allanol y cwmni roi sicrwydd busnes hyfyw ("going concern") i'r cwmni. Anfonodd y Pennaeth Cyllid y llythyr i Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Byw'n Iach Cyf ar 19 Mehefin 2020, yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd am gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31/03/2021.
5. Ymhellach, yn y Cabinet ar 9 Mawrth 2021, penderfynwyd ymestyn y cyfnod o sicrwydd i'r cwmni a rhoddwyd yn ei le ar gyfer 2020/21 i'r flwyddyn ariannol 2021/22, gan gadarnhau pe bai'r argyfwng Covid-19 yn parhau fod Cyngor Gwynedd am gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31/03/2022.

Datblygiadau yn 2020/21 a 2021/22

6. Erbyn hyn, gwyddom wrth gwrs fod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu o'u Cronfa Caledi tuag at golledion incwm awdurdodau lleol yn 2020/21 a 2021/22. Hefyd, rydym wedi hawlio arian o gynllun seibiant swyddi (Furlough") CaThEM tra bu'r canolfannau hamdden ar cau. Mae dros £3m o gymorth wedi ei hawlio yn 2020/21 a dros £1.6m yn 2021/22 ar ran Byw'n Iach Cyf: £3.2m gan Lywodraeth Cymru ynghyd â £1.4m gan CaThEM.

Disgwyliadau erbyn 2022/23

7. Yn anffodus, ymddengys bydd sgil effaith yr argyfwng Covid-19 yn parhau i mewn i 2022/23. Mae Byw'n Iach Cyf yn wynebu'r her o adeiladu hyder eu cwsmeriaid tra fod peth ansicrwydd yn parhau, ac mae'r cwmni yn ymrwymo i gydweithio'n agos iawn gyda'r Cyngor wrth symud ymlaen yn ystod y flwyddyn.
8. Yn ymarferol, diau fod Cyngor Gwynedd yn parhau o'r farn mai model cwmni hyd-braich yw'r un mwyaf addas i gwrdd â'i ddyheadau yn y maes hamdden, a byddwn yn parhau i gynnal y berthynas agos gyda Byw'n Iach Cyf i sicrhau parhad ei hyfywdra ariannol.

Argymhelliad

9. Felly, argymhellir fod y Cyngor yn ymestyn y cyfnod o sicrwydd i'r cwmni a rhoddwyd yn ei le ar gyfer 2020/21 a 2021/22 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 hefyd, gan gadarnhau pe bai'r argyfwng Covid-19 yn parhau fod Cyngor Gwynedd am gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31/03/2023.
10. Byddai'r sicrwydd yma o gefnogaeth ariannol yn galluogi'r cwmni i barhau i fasnachu'n gyfreithlon o 1 Ebrill 2022 tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ymhlygiadau Ariannol

11. Gan ddefnyddio 2021/22 fel sail, £1.6m oedd gwerth y golled incwm. Rhagwelir bydd y gost o gadw Byw'n Iach yn hyfyw yn sylweddol is na'r swm yma yn 2022/23 gan fod y canolfannau wedi ail-agor, serch fod nifer y defnyddiwyd yn parhau'n is nag oedd ym Mawrth 2020, gan fod effaith y pandemig yn parhau. Er hynny, mae'n deg disgwyl y bydd nifer y defnyddiwyd yn cynyddu'n raddol wrth i hyder y cyhoedd ddychwelyd.
12. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i digolledu'r Cyngor am golledion incwm yn 2022/23 gan fod y Gronfa Galedi yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.
13. Fel rhan o'r adroddiad ar gyllideb 2022/23 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2022, nodwyd fod y Cyngor wedi darparu adnodd £1.4 miliwn er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol i gynorthwyo'r gwasanaethau i ddygymod â'r sefyllfa yn sgil Covid-19. Eglurwyd ar y pryd nad ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau ond mae cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Mae darpariaethau yn y gytundeb gyda Cwmni Byw'n Iach sydd yn caniatáu i'r Cyngor i addasu ei gyfraniadau cytundebol. Mae'r hyn a argymhellir yn darparu i ymestyn y sicrwydd a roddwyd yn flaenorol er caniatáu i'r cwmni barhau i gynnal ei weithgareddau sydd, fel a nodir yn yr adroddiad, yn unol a'g amcanion strategol y Cyngor.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.